Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 728 (Cy. 125)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd mewn wyth Rhan, yn diwygio amryw Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso.

Mae Rhannau 2 i 8 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau a ganlyn—

(a) mae Rhan 2 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"),

(b) mae Rhan 3 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"),

(c) mae Rhan 4 yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(d) mae Rhan 5 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"),

(e) mae Rhan 6 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"),

(f) mae Rhan 7 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol"), ac

(g) mae Rhan 8 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn diwygio'r diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2014, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, fel ei bod yn ofynnol i bersonau o'r fath fod â chaniatâd sy'n bodoli eisoes i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi er mwyn bod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr,

(b) yn gwneud newidiadau cyfatebol i'r diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" yn Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, fel ei bod yn ofynnol i bersonau o'r fath fod â chaniatâd sy'n bodoli eisoes i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr o dan y Rheoliadau hynny, yn unol â gofynion cyfwerth ar gyfer personau o'r fath o dan Reoliadau 2007, Rheoliadau 2014, Rheoliadau 2015 a Rheoliadau 2017, ac

(c) yn darparu i gymhwystra gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir i gael cymorth i fyfyrwyr o dan y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019 derfynu pan na chaniateir iddo aros yn y Deyrnas Unedig mwyach, yn hytrach na phan fydd ei statws fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir yn dod i ben, yn unol â gofynion cyfwerth ar gyfer personau o'r fath o dan Reoliadau 2014, Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 728 (Cy. 125)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *20 Mehefin 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *24 Mehefin 2025*

*Yn dod i rym* *17 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983([1]) ac adrannau 22(1)(a) a (2)(a), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch

(**1**) 1983 p. 40. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238 (Cy. 243), Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33; a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1), Atodlen 4, paragraff 2. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**).

## RHAN 1

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2025.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth, ac â ffioedd a dyfarndaliadau sy'n gymwys, mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

---

(**1**) 1998 p. 30. Diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458), erthygl 2(a). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44(1) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**3.** Yn Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**1**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir"—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "a chanddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

## RHAN 3

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**4.** Yn Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**2**), yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir"—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

## RHAN 4

### Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**5.** Yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**3**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir"—

---

(**1**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

(**2**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

(**3**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "a chanddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

# RHAN 5

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**6.** Yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**), yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir"—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

# RHAN 6

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

**Cyflwyniad**

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**8.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2ZC (categori 2ZC – gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir), yn is-baragraff (2)—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

---

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2024/810 (Cy. 131) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Partneriaid a ddiogelir – statws caniatâd**

**9.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2ZB (categori 2ZB - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant), yn is-baragraff (3)(b), yn y geiriau o flaen Achos 1—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo", yn yr ail le y mae'n digwydd, rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "partner sydd wedi cael profedigaeth" mewnosoder ", a roddwyd".

## RHAN 7

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

**Cyflwyniad**

**10.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**11.** Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir"—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

**Partneriaid a ddiogelir – statws caniatâd**

**12.** Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir", yn y geiriau o flaen paragraff (1)—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo", yn yr ail le y mae'n digwydd, rhodder "y mae ganddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "partner sydd wedi cael profedigaeth" mewnosoder ", a roddwyd".

---

(**1**) O.S. 2018/656 (Cy. 124); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/1349 (Cy. 243), O.S. 2024/810 (Cy. 131) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Terfynu cymhwystra - gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**13.** Yn rheoliad 3 (myfyrwyr cymwys), ym mharagraff (10H)(b)—

(a) yn lle "fo statws A fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" rhodder "fo'r cyfnod y caniateir i A";

(b) ar ôl "yn ôl y digwydd," mewnosoder "aros yn y Deyrnas Unedig".

## RHAN 8

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

**Cyflwyniad**

**14.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir – statws caniatâd**

**15.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2C (categori 2C – gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir), yn is-baragraff (2)—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo" rhodder "a chanddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "i aros ynddi" mewnosoder "a roddwyd".

**Partneriaid a ddiogelir – statws caniatâd**

**16.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2B (categori 2B - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant), yn is-baragraff (3)(b), yn y geiriau o flaen Achos 1—

(a) yn lle "y rhoddwyd caniatâd iddo", yn yr ail le y mae'n digwydd, rhodder "a chanddo ganiatâd cyfredol";

(b) ar ôl "partner sydd wedi cael profedigaeth" mewnosoder ", a roddwyd".

---

(**1**) O.S. 2019/895 (Cy. 161); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/1349 (Cy. 243), O.S. 2024/810 (Cy. 131) ac O.S. 2025/16 (Cy. 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Terfynu cymhwystra - gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**17.** Yn rheoliad 12H (personau sy'n peidio â bod yn wladolion Wcreinaidd a ddiogelir), ym mharagraff (b)—

(a) yn lle "fo statws A fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" rhodder "fo'r cyfnod y caniateir i A";

(b) ar ôl "yn ôl y digwydd," mewnosoder "aros yn y Deyrnas Unedig".

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
20 Mehefin 2025